

Polisi Cydymffurfio a Gorfodi

Atodiad 3 : Gorfodi Iechyd a Diogelwch

1. Cyflwyniad

- 1.1 Mae'r atodiad hwn yn ategu Polisi Cydymffurfio a Gorfodi'r Gwasanaethau Rheoliadol a Rennir o ran sefydlu dull cyson o orfodi cyfraith iechyd a diogelwch. Mae'n rhaid ei ddarllen ar y cyd â'r Polisi Cydymffurfio a Gorfodi cyffredinol
- 1.2 Mae'r atodiad hwn wedi'i gynhyrchu mewn ymateb i ofynion adran 18 Deddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith 1974 sy'n ei gwneud hi'n ofynnol i Awdurdodau Lleol wneud trefniadau digonol er mwyn cyflawni eu dyletswyddau fel "awdurdod gorfodi".
- 1.3 Mae'r atodiad hwn yn dilyn y canllaw a gyflwynwyd gan y Comisiwn Iechyd a Diogelwch ac mae'n ei gwneud hi'n ofynnol i Awdurdodau Lleol ddilyn yr egwyddorion a'r dulliau y cytunwyd arnynt gan yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch a'r Pwyllgor Cyswllt Gorfodi Awdurdodau Lleol.
- 1.4 Bydd yr atodiad hwn yn rhan o'r Cynllun Gwasanaeth Iechyd a Diogelwch a gynhyrchwyd mewn ymateb i ofynion adran 18 y Ddeddf.
- 1.5 Pan fo unrhyw wrthdaro o ran dehongli rhwng yr atodiad hwn a'r Polisi Cydymffurfio a Gorfodi cyffredinol, blaenoriaethir y polisi.

2. Cylch gwaith y Gwasanaeth wrth orfodi cyfraith iechyd a diogelwch

- 2.1 Mae'r Gwasanaethau Rheoliadol a Rennir (GRhR) yn "awdurdod gorfodi" ar gyfer awdurdodau Pen-y-bont ar Ogwr, Caerdydd a Bro Morgannwg ac felly mae ganddo gyfrifoldeb dan adran 18 Deddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith 1974 i wneud trefniadau digonol ar gyfer gorfodi cyfraith iechyd a diogelwch yn rhan o weithgareddau gwaith penodol.
- 2.2 Nod y GRhR yw amddiffyn iechyd, diogelwch a lles pobl yn y gwaith, a diogelu eraill, yn bennaf aelodau'r cyhoedd, y gallent fod yn agored i risgiau o'r ffordd y gwneir y gwaith. Dyma'r prif weithgareddau gwaith y mae'r GRhR yn gyfrifol amdanynt:-

Annex 3 - Compliance and enforcement policy Cymraeg	Date of issue Nov 2016	Ref: SRS/MC/POL/006	OM – CS	V.1
---	---------------------------	---------------------	---------	-----



- swyddfeydd
- siopau
- canolfannau dosbarthu manwerthu a chyfanwerthu
- gweithgareddau chwaraeon, hamdden ac adloniant
- sefydliadau arlwyo
- darparu llety preswyl
- tyllu corff a thatwio
- gwasanaethau defnyddwyr mewn siopau
- sefydliadau lles anifeiliaid
- darparu cyfleusterau gofal plant, grŵp chwarae neu feithrinfa
- addoldai
- ymgymerwyr a chyfarwyddwyr angladdau.

2.3 Gellir dod o hyd i ragor o wybodaeth fanwl gan gynnwys eithriadau i'r rhestr yn y Cynllun Gwasanaeth Iechyd a Diogelwch a Rheoliadau Iechyd a Diogelwch (Awdurdod Gorfodi) 1998

Mae'r Datganiad Polisi Gorfodi hwn yn pennu'r egwyddorion a'r dull cyffredinol y bydd y GRhR yn eu dilyn; bydd ein Harolygwyr yn cadw at egwyddorion y ddogfen Bolisi hon.

Mae defnydd priodol o'r amrywiaeth lawn o bwerau gorfodi, gan gynnwys erlyn, yn bwysig er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth â'r gyfraith ac i sicrhau y gall y rhai hynny sydd â dyletswyddau yn rhan ohoni, gael eu dwyn i gyfrif am fethu â diogelu iechyd, diogelwch a lles.

3. Cymryd camau gorfodi

3.1 Mae adran 8.4 o Bolisi Cydymffurfio a Gorfodi'r GRhR yn ymwneud â phenderfyniadau ar gamau gorfodi ac yn ystyried yr amrywiaeth eang o opsiynau gorfodi sydd ar gael i'r Gwasanaeth. Diben yr adran hon yw pennu'r opsiynau gorfodi ychwanegol sydd ar gael sy'n benodol i weinyddu cyfraith iechyd a diogelwch.

3.2 Mae'r dulliau gorfodi sydd ar gael i'n harolygwyr yn cynnwys:

- rhoi cyngor ar lafar ac yn ysgrifenedig;
- rhoi gwybodaeth ysgrifenedig ynghylch torri'r gyfraith;
- mynnu gwelliannau i'r ffordd y caiff risgiau eu rheoli;
- stopio gweithgareddau penodol pan fônt yn achosi risgiau difrifol; ac
- argymhell erlyn pan fo achos difrifol o dorri'r gyfraith.

Annex 3 - Compliance and enforcement policy Cymraeg	Date of issue Nov 2016	Ref: SRS/MC/POL/006	OM – CS	V.1
---	---------------------------	---------------------	---------	-----

Wrth ddyrannu adnoddau, rhoddir sylw dyladwy i'r egwyddorion a nodir isod, yr amcanion a gyhoeddwyd yng nghynlluniau strategol y Comisiwn Iechyd a Diogelwch a'r Pwyllgor Cyswllt Gorfodi Awdurdodau Lleol/Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch, a'r angen i gynnal cydbwysedd rhwng gorfodi a gweithgareddau eraill gan gynnwys archwiliad.

- 3.3 Rydym yn credu mewn camau gorfodi'r gyfraith sy'n gadarn, ond yn deg. Mae ein dull ni'n ystyried y dylai pob cam gorfodi fod yn gymesur â risgiau iechyd a diogelwch ac â difrifoldeb unrhyw achos o dorri'r gyfraith. Ystyriwn fod defnydd priodol o'n pwerau gorfodi yn bwysig, er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth â chyfraith iechyd a diogelwch ac i sicrhau bod y rhai hynny sydd â dyletswydd gyfreithiol (deiliaid dyletswydd) yn gyfrifol am fethiannau difrifol.

Mae adrannau canlynol yr atodiad hwn yn disgrifio:

- diben gorfodi;
- egwyddorion gorfodi;
- y dulliau gorfodi sydd ar gael i'n harolygwyr; a
- sut mae ein hegwyddorion gorfodi'n ymwneud ag ymchwiliadau ac erlyniadau.

4. Diben gorfodi

- 4.1 Diben y GRhR fel Awdurdod Gorfodi yw sicrhau bod deiliaid dyletswydd yn rheoli risgiau'n effeithiol, gan atal niwed.

Diben gorfodi yw:

- sicrhau bod deiliaid dyletswydd yn gweithredu i fynd i'r afael â risgiau difrifol ar unwaith;
- hyrwyddo a chyflawni cydymffurfiaeth barhaus â'r gyfraith;
- sicrhau y gall deiliaid dyletswydd sy'n torri gofynion iechyd a diogelwch, a chyfarwyddwyr neu reolwyr sy'n methu â chyflawni eu cyfrifoldebau, gael eu dwyn i gyfrif.

- 4.2 Mae gorfodi'n wahanol i hawliadau sifil am iawndal a ddilyniir gan unigolion megis partïon anafedig, ac ni chaiff ei weithredu dan bob amgylchiad lle y gellir dilyn hawliadau sifil. Nid yw'n bolisi i Arolygwyr gynorthwyo hawliadau o'r fath heblaw am ddarparu gwybodaeth y gofynnir amdani gan y partïon perthnasol.

Annex 3 - Compliance and enforcement policy Cymraeg	Date of issue Nov 2016	Ref: SRS/MC/POL/006	OM – CS	V.1
---	---------------------------	---------------------	---------	-----

5. Egwyddorion gorfodi

5.1 Yn unol â Pholisi Cydymffurfio a Gorfodi cyffredinol y GRhR, rydym yn gweithredu'r egwyddorion canlynol wrth gynnal ein gweithgareddau gorfodi yng nghyd-destun cyfraith iechyd a diogelwch:

- **cymesuredd** wrth weithredu'r gyfraith a sicrhau cydymffurfiaeth;
- **targedu** camau gorfodi;
- dull **cyson**;
- bod yn **dryloyw** am y ffordd yr ydym yn gweithredu fel rheoleiddiwr a'r hyn y gall y rhai hynny a reoleiddir ei ddisgwyl;
- **atebolrwydd** am ein gwasanaeth a'n gweithredoedd.

Mae'r egwyddorion hyn yn berthnasol i orfodi mewn achosion penodol o dorri'r gyfraith, ac i'n gwaith o reoli gweithgareddau gorfodi yn gyffredinol. Ni chânt eu gweithredu ar eu pennau eu hunain, yn hytrach cânt eu llywio gan ddealltwriaeth o'r amgylchedd busnes. Maent yn caniatáu gorfodi effeithiol, heb rwystro twf economaidd, drwy fynnu bod ein harolygwyr yn gymesur wrth wneud penderfyniadau a bod yn ofalus i achosi cyn lleied o faich ar gynhyrchiant busnes â phosibl. Caiff yr egwyddorion hyn eu hadlewyrchu hefyd yn y Cod Awdurdodau Lleol Cenedlaethol ar gyfer Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith

5.1.1 Cymesuroldeb

- Rydym yn gweithredu dull cymesur tuag at orfodi'r gyfraith ar draws wahanol ddiwydiannau a sectorau, gan gydnabod pwysigrwydd cefnogi busnesau i gydymffurfio a thyfu.
- Wrth ddelio â deiliaid dyletswydd, byddwn yn sicrhau bod ein camau gorfodi yn gymesur â'r risgiau iechyd a diogelwch* a difrifoldeb unrhyw achos o dorri'r gyfraith. Mae hyn yn cynnwys unrhyw niwed posibl neu wirioneddol o ganlyniad i unrhyw achos o dorri'r gyfraith, ac effaith economaidd y camau a gymerir.
- Rydym yn disgwyl y bydd deiliaid dyletswydd, yn eu tro, yn mabwysiadu dull call a chymesur tuag at reoli iechyd a diogelwch, gan ganolbwyntio ar risgiau sylweddol h.y. y rhai hynny gyda'r potensial i achosi niwed go iawn.
- Mae cymhwyso'r egwyddor o gymesuroldeb yn golygu y dylai ein harolygwyr ystyried yn fanwl i ba raddau y mae deiliaid dyletswydd wedi torri'r gyfraith a difrifoldeb y risgiau a achoswyd.
- Mae rhai dyletswyddau iechyd a diogelwch yn benodol ac yn absoliwt. Mae eraill angen gweithredu "i'r graddau y mae hynny'n rhesymol ymarferol".

Annex 3 - Compliance and enforcement policy Cymraeg	Date of issue Nov 2016	Ref: SRS/MC/POL/006	OM – CS	V.1
---	---------------------------	---------------------	---------	-----



Bydd ein harolygwyr yn cymhwyso'r egwyddor o gymesuroldeb yn y ddau achos.

- Mae penderfynu beth sy'n rhesymol ymarferol i reoli risg yn golygu arfer barn. Bydd ein harolygwyr, wrth ystyried pa mor ddigonol yw'r mesurau amddiffynnol a gymerir, yn cydbwyso difrifoldeb y risg yn erbyn yr arian, yr amser neu'r drafferth sydd eu hangen i osgoi'r risg. Oni bai y gellir dangos bod anghymesuredd difrifol rhwng y ffactorau hyn ac nad yw'r risg yn sylweddol mewn perthynas â'r gost, mae'n rhaid i ddeiliaid dyletswydd gymryd mesurau ac ysgwyddo costau i leihau'r risg a chydymffurfio â'r gyfraith.

5.1.2 Targedu

- Rydym yn defnyddio dull seiliedig ar risg wrth benderfynu pa ddeiliaid dyletswydd i'w harchwilio'n rhagweithiol, gan ystyried ffactorau megis maint, math o weithgareddau, sector diwydiant, a'r achosion o farwolaeth, anaf a chyfraddau salwch cysylltiedig.
- Rydym hefyd yn defnyddio meini prawf cymesur sy'n seiliedig ar ganlyniadau wrth benderfynu pa achosion, afiechydon a digwyddiadau peryglus, i'w hadrodd o dan Reoliadau Adrodd ar Anafiadau, Clefydau a Digwyddiadau Peryglus 2013, y mae'n rhaid ymchwilio iddynt. Ceir rhagor o wybodaeth am sut yr ydym yn penderfynu a ydym am ymchwilio ai peidio ar ein gwefan.
- Golyga hyn ein bod ni'n targedu ein hadnoddau archwilio ac ymchwilio yn bennaf ar gyfer y gweithgareddau, y diwydiannau a'r sectorau hynny sy'n achosi'r risgiau mwyaf difrifol, lle a phryd gaiff y peryglon eu rheoli waethaf, neu pan fo cymhwysedd i reoli iechyd a diogelwch dan amheuaeth. Ar y cyfan ni fydd gweithgareddau risg isel yn destun gorfodi oni bai bod niwed go iawn wedi digwydd.
- Rydym yn canolbwyntio ein gweithgarwch gorfodi ar y risgiau mwyaf difrifol, ac ar y rhai hynny sy'n gyfrifol amdanynt ac wedi'u lleoli orau i'w rheoli – boed yn gyflogwyr, yn gyflogaion, yn hunan-gyflogedig, yn gyflenwyr, yn gontractwyr, yn landlordiaid neu eraill.
- Rydym yn cydnabod nad yw'n bosibl nac yn angenrheidiol i ystyried pob achos o anghydfurfio a allai ddod i'r amlwg yn ystod archwiliad neu ymchwiliad. Bydd ein harolygwyr felly'n targedu eu camau gorfodi i ddelio â'r risgiau mwyaf difrifol.

Annex 3 - Compliance and enforcement policy Cymraeg	Date of issue Nov 2016	Ref: SRS/MC/POL/006	OM – CS	V.1
---	---------------------------	---------------------	---------	-----



- Os bydd gan ddeiliaid dyletswydd gyfrifoldebau, efallai y byddwn yn cymryd camau yn erbyn mwy nag un, pan fo'n briodol gwneud hynny yn unol â'r polisi hwn.

5.1.3 **Cysondeb**

- Rydym yn mabwysiadu dull cyson tuag at orfodi'r gyfraith ar draws wahanol ddiwydiannau a gweithleoedd, gan gydnabod pwysigrwydd triniaeth deg i bawb wrth hyrwyddo a chynnal twf economaidd.
- Nid yw dull cyson yn golygu unffurfiaeth. Mae'n golygu gweithredu dull tebyg mewn amgylchiadau tebyg i sicrhau cydymffurfiaeth â'r gyfraith.
- Rydym yn deall bod pobl sy'n rheoli risgiau tebyg mewn diwydiannau tebyg yn disgwyl dull cyson gan ein harolygwyr wrth gymryd camau gorfodi. Fodd bynnag, nid yw cysondeb yn fater syml. Mae pob sefyllfa'n wahanol – yn rhinwedd y diwydiant, y gweithle, ei risgiau, ei systemau rheoli ac ati. O ganlyniad, mae ein harolygwyr yn wynebu nifer o newidynnau yn ychwanegol at raddfa'r risg a difrifoldeb unrhyw achos o dorri'r gyfraith, gan gynnwys agwedd a chymhwysedd rheolwyr, hanes digwyddiadau a champau gorfodi blaenorol.
- Felly wrth wneud unrhyw benderfyniad gorfodi mae angen arfer yn briodol ddisgresiwn unigol a barn broffesiynol.
- Ein nod yw sicrhau, drwy gymhwyso ein fframwaith gwneud penderfyniadau ar orfodi iechyd a diogelwch, y Model Rheoli Gorfodi a thrwy adolygiad gan gyfoedion, fod ein penderfyniadau gorfodi'n gyson.
- Pan fo camau gorfodi yn gwrthdaro â gofynion rheoleiddwyr eraill, byddwn yn gweithio gyda nhw i ddatrys y gwahaniaethau.

5.1.4 **Tryloywder**

- Dylai ein camau gorfodi amlinellu'n glir i ddeiliaid dyletswydd nid yn unig beth sy'n rhaid iddynt ei wneud, ond lle y bo'n berthnasol, beth nad oes raid iddynt ei wneud.
- Lle y nodwyd diffyg cydymffurfio, bydd ein harolygwyr yn esbonio'n glir ac yn brydlon y penderfyniadau a wnaed, eu rhesymau, a'r camau sydd eu hangen i gyflawni cydymffurfiaeth. Byddant yn trafod amserlenni rhesymol â'r deiliad dyletswydd ac yn esbonio beth fydd yn digwydd os na fyddant yn cydymffurfio.

Annex 3 - Compliance and enforcement policy Cymraeg	Date of issue Nov 2016	Ref: SRS/MC/POL/006	OM – CS	V.1
---	---------------------------	---------------------	---------	-----



- Hefyd, bydd ein harolygwyr yn gwahaniaethau rhwng y camau sydd eu hangen i gydymffurfio â'r gyfraith, a'r cyngor a roddir i gyflawni arfer da neu roi gwybod am newidiadau arfaethedig i ofynion cyfreithiol. Bydd hyn yn sicrhau na roddir beichiau economaidd heb eu hangen ar fusnesau.
- Mae tryloywder hefyd yn cynnwys rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i gyflogeion, cynrychiolwyr cyflogeion, pobl anafedig a'u teuluoedd am gamau gorfodi perthnasol. Serch hynny, mae hyn yn amodol ar gyfyngiadau cyfreithiol wrth ddatgelu.

5.1.5 Mae safonau a thargedau gorfodol wedi'u pennu ar gyfer rhai gweithgareddau penodol o fewn y tîm Gorfodi Iechyd a Diogelwch, yn bennaf

GWEITHGAREDD		SAFON
1	Pob ymchwiliad rhagweithiol risg uchel	Ymweliadau rheolaidd drwy apwyntiad
2	Pob categori arall o ymweliadau rhagweithiol	Ymweliadau yn cael eu gwneud ar sail blaenoriaeth neu fel sy'n ofynnol yn rhan o'r cynllun busnes blynyddol
3	Pob Cais Gwasanaeth, gan gynnwys cwynion	Ymateb ac ymchwilio i bob un. Defnyddir disgrisiwn i gwynion dienw a blinderus
4	Pob cwyn a dderbynnir mewn cysylltiad ag amodau gweithio a gweithgareddau gwaith	Ymateb cyntaf o fewn 4 diwrnod ac ymchwilio i'r gŵyn yn unol â'r Polisi Ymchwilio i Gwynion
5	Ymchwilio i Ddamweiniau a Digwyddiadau	Ymateb cyntaf o fewn 4 diwrnod ac ymchwilio i'r gŵyn yn unol â'r Polisi Ymchwilio i Ddamweiniau
6	Adroddiadau Statudol	Ymateb yn dibynnu ar fanylion yr Adroddiad Statudol
7	Ymgynghori â'r Awdurdod sy'n Gyfrifol am Iechyd a Diogelwch	Ymateb cyntaf o fewn 5 diwrnod

Mae trefniadau gweinyddol ar waith i fonitro ein perfformiad yn erbyn y safonau hyn a bydd y canlyniadau'n cael eu cyhoeddi bob blwyddyn y Cynllun Gwasanaeth ac ar wefan y GRHR.

5.1.6 Atebolrwydd

Fel rheoleiddiwr, rydym yn atebol i bawb a gellir barnu ein camau gorfodi yn erbyn yr egwyddorion a'r safonau a bennir yn yr atodiad hwn. Mae hyn yn cynnwys ein dyletswydd i ystyried twf economaidd yn ein gweithgareddau rheoleiddiol, a hynny

Annex 3 - Compliance and enforcement policy Cymraeg	Date of issue Nov 2016	Ref: SRS/MC/POL/006	OM – CS	V.1
---	---------------------------	---------------------	---------	-----



drwy beidio â lleihau cyfrifoldeb deiliaid dyletswydd i gydymffurfio â'r gyfraith.

Rhoddir gwybodaeth i fusnesau, cyflogeion, eu cynrychiolwyr ac eraill i'w galluogi nhw i ddeall yr hyn i'w ddisgwyl pan fo ein harolygwyr yn ymweld a sut i wneud unrhyw gŵyn y gall fod ganddynt. Bydd y ddogfennaeth honno yn

- disgrifio'r weithdrefn i gwyno am benderfyniadau gorfodi a wnaed gan ein harolygwyr, neu os nad yw gweithdrefnau wedi'u dilyn; ac,
- esbonio'r hawl i apelio i Dribiwnlys Cyflogaeth mewn achosion pan fo hysbysiadau statudol wedi'u cyflwyno.

6. Dulliau gorfodi

6.1 Mae gennym amrywiaeth o ddulliau gorfodi i sicrhau cydymffurfiaeth â'r gyfraith ac i sicrhau ymateb cymesur i unrhyw achosion o dorri'r gyfraith.

- Gall ein harolygwyr roi gwybodaeth, cyngor neu lythyron rhybudd ffurfiol ynghylch achosion o dorri'r gyfraith yn dilyn ymweliad. Gallai hyn gynnwys rhybuddio y deiliad dyletswydd eu fod, ym marn yr arolygwr, yn methu â chydymffurfio â'r gyfraith. Lle y bo'n briodol, efallai y byddwn hefyd yn cyflwyno hysbysiadau gwella a gwahardd, yn tynnu cymeradwyaethau'n ôl, amrywio amodau neu eithriadau trwydded, cyflwyno rhybuddion syml a gallwn hefyd erlyn.
- Wrth bennu pa lefel o gamau gorfodi sy'n briodol, mae ein harolygwyr yn arfer disgrisiwn a barn broffesiynol yn ôl yr amgylchiadau dan sylw. Cânt eu harwain yn y broses hon gan y Model Rheoli Gorfodi, sy'n darparu fframwaith ar gyfer gwneud penderfyniadau gorfodi cyson ac yn ystyried y cyd-destun busnes fesul achos. Mae hefyd yn ystyried agweddau ar fudd economaidd a allai danseilio busnesau eraill.
- Gellir cyflwyno hysbysiad gwahardd pan fo arolygwr o'r farn bod risg o anaf personol difrifol yn gysylltiedig â gweithgarwch neu broses waith benodol neu, os nodir diffyg difrifol mewn mesurau, i atal neu i liniaru effeithiau peryglon sylweddol. Nid oes rhaid cael achos o dorri'r gyfraith. Gall hysbysiad o'r fath gael ei weithredu ar unwaith neu gellir ei ohirio am resymau diogelwch.
- Gellir cyflwyno hysbysiad gwella pan fo arolygydd o'r farn bod achos o dorri'r gyfraith y mae angen ei gywiro o fewn cyfnod penodol o amser.
- Mae methu â chydymffurfio â'r naill fath o hysbysiad yn drosedd a gall arwain at gael eich erlyn.

Annex 3 - Compliance and enforcement policy Cymraeg	Date of issue Nov 2016	Ref: SRS/MC/POL/006	OM – CS	V.1
---	---------------------------	---------------------	---------	-----



- Mae erlyn a, lle y bo'n briodol, rhybuddion, yn ffyrdd pwysig o ddwyn y rhai sy'n gyfrifol i gyfrif am dorri'r gyfraith. Lle y bo'n briodol yn unol â'r polisi hwn, gellir dilyn y mesurau hyn yn ychwanegol at gyflwyno hysbysiad gwahardd neu welliant.
- Os yw busnes yn rhan o bartneriaeth Awdurdod Sylfaenol, bydd arolygwyr yn dilyn rheolau Darparu Rheoleiddiol awdurdod sylfaenol ac yn dilyn cyngor sicr.

Pan fo gan arolygwyr ddewis ynghylch sut maent yn arfer eu swyddogaethau, byddant yn:

- ystyried sut y gallent gyflawni eu gweithgareddau i leihau effaith economaidd negyddol debygol; ac,
- addasu eu gweithgareddau i fanteisio ar unrhyw effaith economaidd gadarnhaol debygol

6.2 Ymchwiliad

- Rydym yn arfer disgrisiwn wrth benderfynu pa un a ddylid ymchwilio i achosion ai peidio. Caiff ei gydnabod nad yw'n bosibl nac yn angenrheidiol at ddibenion Deddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith ac ati 1974 i ymchwilio i bob achos o ddiffyg cydymffurfio â'r gyfraith. Wrth wneud penderfyniadau o'r fath, gan gynnwys lefel yr adnoddau i'w defnyddio, rydym yn ystyried y ffactorau canlynol:
 - graddfa'r niwed posibl neu wirioneddol;
 - difrifoldeb unrhyw achos posibl o dorri'r gyfraith;
 - ein blaenoriaethau gorfodi;
 - ymarferoldeb cyflawni canlyniadau;
 - perthnasedd ehangach y digwyddiad, gan gynnwys pryder cyhoeddus difrifol
- Mae'r meini prawf ar gyfer pennu pa achosion sy'n orfodol i'w hymchwilio wedi'u cyhoeddi ar ein gwefan. Rydym yn cynnal ymchwiliadau er mwyn:
 - casglu gwybodaeth a sefydlu'r ffeithiau
 - nodi'r achosion uniongyrchol a sylfaenol a'r gwersi i'w dysgu
 - atal rhag digwydd eto
 - nodi achosion o dorri'r gyfraith iechyd a diogelwch
 - cymryd camau priodol, gan gynnwys cyflwyno hysbysiadau ac erlyn.

Bydd y GRhR yn dilyn egwyddorion ei Bolisi Ymchwilio i Ddamweiniau wrth bennu pa ddamweiniau yr ymchwilir iddynt. [Polisi Ymchwilio i Ddamweiniau, y Cynllun Iechyd a Diogelwch.doc](#)

Annex 3 - Compliance and enforcement policy Cymraeg	Date of issue Nov 2016	Ref: SRS/MC/POL/006	OM – CS	V.1
---	---------------------------	---------------------	---------	-----

Bydd y GRHR yn dilyn egwyddorion ei Bolisi Ymchwilio i Gwynion wrth bennu pa gwynion neu Geisiadau Gwasanaeth yr ymchwilir iddynt fel a nodir yn y *Polisi Ymchwilio i Gwynion, y Cynllun Iechyd a Diogelwch.doc*

Rydym yn neilltuo'r rhan fwyaf o adnoddau i ymchwilio i ddiwyddiadau sy'n cynnwys amgylchiadau mwy difrifol, gan gynnwys ymchwilio i'r holl farwolaethau yn ymwneud â'r gwaith.

6.3 Ymchwilio i farwolaethau yn ymwneud â'r gwaith

Pan fo achos o dorri'r gyfraith yn arwain at farwolaeth yn ymwneud â'r gwaith, bydd angen ystyried pa un a allai amgylchiadau'r achos gyfiawnhau cyhuddiad o ddynladdiad neu ddynladdiad corfforaethol ai peidio.

I sicrhau bod penderfyniadau ynghylch ymchwiliadau ac erlyn yn cael eu cydlynu'n ofalus yn dilyn marwolaeth yn ymwneud â'r gwaith, rydym ni, ynghyd â rheoleiddwyr eraill, wedi cytuno a chyhoeddi ar y cyd: *Marwolaethau yn ymwneud â'r gwaith, Protocol ar gyfer cysylltu*

Mae'r heddlu'n gyfrifol am benderfynu a ddylid cynnal ymchwiliad dynladdiad neu ddynladdiad corfforaethol ai peidio a pha un a ddylid cyfeirio achos i'r GEG i ystyried cyhuddiadau dynladdiad posibl ai peidio. Rydym yn ymchwilio i droseddau iechyd a diogelwch posibl. Os deawn o hyd i dystiolaeth sy'n awgrymu dynladdiad neu ddynladdiad corfforaethol yn ystod ein hymchwiliad, byddwn yn ei chyfeirio at yr heddlu. Os bydd yr heddlu neu'r GEG yn penderfynu peidio â mynd ar drywydd achos dynladdiad neu ddynladdiad corfforaethol, byddwn yn ystyried a ddylid cynnal erlyniad iechyd a diogelwch yn unol â'r polisi hwn ai peidio.

6.4 Achosion cyfreithiol ffurfiol

6.4.1 Rhybudd Syml

Mae Adran 8.4.2.5 Polisi Cydymffurfio a Gorfodi'r Gwasanaethau Rheoliadol a Rennir yn ymdrin â Rhybuddion Syml.

6.4.2 Erlyniad

Mae erlyn yn rhan hanfodol o orfodi, gan sicrhau bod deiliaid dyletswydd (gan gynnwys unigolion) yn cael eu dwyn i gyfrif pan fo achos difrifol o dorri'r gyfraith. Mae hyn yn cynnwys dwyn troseddwr honedig gerbron y llysoedd.

Mae Adran 8.4.2.6 Polisi Cydymffurfio a Gorfodi'r Gwasanaethau Rheoliadol a

Annex 3 - Compliance and enforcement policy Cymraeg	Date of issue Nov 2016	Ref: SRS/MC/POL/006	OM – CS	V.1
---	---------------------------	---------------------	---------	-----



Rennir yn ymdrin ag Erlyniadau a'r broses gwneud penderfyniadau gysylltiedig.

Yn amodol ar yr uchod, rydym yn argymhell erlyn, lle'r ydym yn credu bod hyn wedi'i gyfiawnhau. Byddwn yn ystyried y trefniadau rheoli a rôl cyfarwyddwyr a rheolwyr unigol a byddwn yn ystyried gweithredu yn eu herbyn lle mae'r archwiliad neu'r ymchwiliad yn datgelu y troseddwyd gyda'u caniatâd neu gydsyniad neu lle'r oedd wedi'i briodoli i'w hesgeulustod a lle y byddai'n briodol gwneud hynny yn unol â'r atodiad hwn. Lle y bo'n briodol, byddwn yn ceisio anghymhwysu cyfarwyddwyr dan Ddeddf Anghymhwysu Cyfarwyddwyr Cwmnïau 1986.

Rydym yn argymhell erlyn, pan fo un neu fwy o'r amgylchiadau canlynol yn y rhestr (nad yw'n gynhwysfawr) yn berthnasol yn dilyn ymchwiliad neu gyswllt rheoleiddiol arall:

- roedd marwolaeth o ganlyniad i dorri'r ddeddfwriaeth;
- mae difrifoldeb trosedd honedig, ynghyd â difrifoldeb unrhyw niwed gwirioneddol neu bosibl, neu gofnod a dull cyffredinol y troseddwr yn cyfiawnhau hynny;
- bu diystyriaeth ddi-hid o ofynion iechyd a diogelwch;
- bu achosion ailadroddus o dorri'r gyfraith sy'n peri risg sylweddol, neu achosion cyson a sylweddol o gydymffurfio gwael;
- gwnaed gwaith heb drwydded neu achos diogelwch priodol, neu drwy beidio â chydymffurfio â nhw
- canfu bod safon deiliad dyletswydd o reoli iechyd a diogelwch yn llawer is na'r hyn sy'n ofynnol gan gyfraith iechyd a diogelwch sy'n peri risg sylweddol;
- methwyd â chydymffurfio â hysbysiad gwelliant neu wahardd; neu bu achos o dorri'r gyfraith a ailadroddwyd a oedd yn destun rhybudd syml;
- cyflenwyd gwybodaeth ffug yn wirfoddol, neu bwriadwyd twyllo, mewn cysylltiad â mater sy'n peri risg sylweddol;
- rhwystrwyd arolygwyr yn fwriadol wrth gynnal eu dyletswyddau cyfreithlon.

Rydym yn argymhell erlyn pan fo un neu fwy o'r amgylchiadau canlynol yn berthnasol yn dilyn ymchwiliad neu gyswllt rheoleiddiol arall:

- mae'n briodol dan yr amgylchiadau fel ffordd o dynnu sylw cyffredinol at yr angen i gydymffurfio â'r gyfraith a chynnal y safonau sy'n ofynnol gan y gyfraith, a gallai collfarnu atal eraill rhag methiannau tebyg i gydymffurfio â'r gyfraith;
- mae achos o dorri'r gyfraith sy'n peri risg sylweddol wedi parhau er gwaethaf rhybuddion perthnasol gan gyflogaion, neu eu cynrychiolwyr, neu gan eraill yr effeithir arnynt gan weithgarwch gwaith.

Annex 3 - Compliance and enforcement policy Cymraeg	Date of issue Nov 2016	Ref: SRS/MC/POL/006	OM – CS	V.1
---	---------------------------	---------------------	---------	-----

Byddwn yn parhau i geisio codi ymwybyddiaeth y llysoedd o ddifrifoldeb troseddau iechyd a diogelwch hyd eithaf eu pwerau wrth gydnabod mai'r llysoedd sy'n penderfynu a yw rhywun yn euog ai peidio a pha gosb i'w rhoi wrth gollfarnu.

6.4.4 **Cyhoeddusrwydd**

Byddwn yn gwneud trefniadau i gyhoeddi'n flynyddol enwau'r holl gwmnïau ac unigolion sydd wedi'u collfarnu yn ystod y 12 mis diwethaf o dorri cyfraith iechyd a diogelwch. Hefyd, mae gan y GRhR drefniadau i sicrhau bod gwybodaeth am y collfarnau hyn a gwybodaeth am hysbysiadau Gwelliant a Gwahardd a gyflwynwyd ar gael yn gyhoeddus.

Efallai y bydd y GRhR hefyd yn ystyried ym mhob achos dynnu sylw'r cyfryngau at wybodaeth ffeithiol am gyhuddiadau a gyflwynwyd i'r llysoedd; cymerir gofal i osgoi unrhyw gyhoeddusrwydd a allai achosi niwed i dreial teg. Byddwn hefyd yn ystyried rhoi cyhoeddusrwydd i unrhyw gollfarn a allai gael ei defnyddio i dynnu sylw at yr angen i gydymffurfio â gofynion iechyd a diogelwch, neu i atal unrhyw un sydd wedi'i demtio i ddiystyru eu dyletswyddau dan gyfraith iechyd a diogelwch.

6.4.5 **Cyrff y Goron**

Mae'n rhaid i gyrff y Goron gydymffurfio â gofynion iechyd a diogelwch, ond nid ydynt yn ddarostyngedig i orfodi statudol, gan gynnwys erlyn. Mae Swyddfa'r Cabinet wedi sefydlu trefniadau anstatudol ar gyfer gorfodi gofynion iechyd a diogelwch ar gyrff y Goron. Mae'r trefniadau hyn yn ein galluogi ni i gyflwyno hysbysiadau gwelliant a gwahardd anstatudol, a cheryddu cyrff y Goron dan amgylchiadau lle y byddai erlyn wedi'i gyfiawnhau oni bai am freinryddid y Goron. Wrth benderfynu pryd i ymchwilio neu ba fath o gamau gorfodi i'w cymryd, rydym yn dilyn, cyn belled ag y bo modd, yr un dull ag ar gyfer cyrff nad ydynt yn rhai y Goron, yn unol â'r atodiad hwn a'r polisi Cydymffurfio a Gorfodi cyffredinol. Nid oes unrhyw awdurdodaeth ynghlwm wrth gamau gorfodi awdurdodau lleol, ni waeth beth fo'r prif weithgarwch gwaith.

Annex 3 - Compliance and enforcement policy Cymraeg	Date of issue Nov 2016	Ref: SRS/MC/POL/006	OM – CS	V.1
---	---------------------------	---------------------	---------	-----